CYFRAN DEG?

CYNLLUN Y SESIWN

Ystod oedran: *7-14 oed* **Cyfanswm yr amser:** *60 munud+*

Amlinelliad
Bydd y dysgwyr yn cynyddu eu hymwybyddiaeth o beth yw treth, y modd y mae'r arian yn cael ei wario, a'r ffordd yr ydym yn rhannu cyfrifoldeb am ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Byddant yn dechrau deall pam y mae'n bwysig i ni dalu treth, a thrwy chwarae gêm efelychu byddant yn trafod ac yn llunio eu casgliadau eu hunain ynghylch a yw pawb yn talu eu cyfran deg o dreth. Bydd y sesiwn yn dod i ben trwy ystyried y modd y gellid gwneud pethau yn decach.

Amcanion dysgu
- Gwerthfawrogi ystyr tegwch.
- Deall pam yr ydym yn talu treth, a gwybod am rai ffyrdd y mae'r arian yn cael ei wario ar wasanaethau cyhoeddus.
- Gwybod nad yw pawb yn talu eu cyfran deg o dreth, ac ystyried ffyrdd o wneud pethau'n decach.
- Gallu cydweithio a thrafod syniadau ag eraill mewn grŵp.
- Gallu cyfiawnhau eu barn a'u syniadau i eraill.

Deilliannau dysgu
Bydd y dysgwyr yn gwneud y canlynol:
- Nodi gwasanaethau y mae'r llywodraeth yn talu amdanynt gan ddefnyddio arian trethi.
- Chwarae gêm i ddatblygu eu dealltwriaeth o'r modd y mae trethi'n cael eu casglu a'u gwario.
- Defnyddio'r gêm hon i'w helpu i ystyried a yw pawb mewn cymdeithas yn talu eu cyfran deg o dreth.
- Trafod eu syniadau ag eraill yn y grŵp.

Cwestiynau allweddol
- Beth yw treth?
- Ar beth y mae'r arian yn cael ei wario?
- A ydych yn meddwl bod eich grŵp chi wedi talu cyfran deg o dreth? Beth am y grwpiau eraill? Pam yr ydych yn meddwl hyn?
- A ydych yn meddwl y dylid gwneud y gêm yn decach? Os felly, sut y byddech yn gwneud y gêm yn decach?

Adnoddau
- Copi i'w harddangos o *Beth y gallwn ei brynu?* (Taflen adnoddau 1).
- Copi o'r label *Hafan Trethi* (Taflen Adnoddau 2).
- Copïau o *Disgrifiadau o'r Grwpiau* (Taflen weithgaredd 1) – un disgrifiad ar gyfer pob grŵp.
- Copïau o *Templedi Tocynnau* (Taflen weithgaredd 2) – un ddalen ar gyfer pob grŵp.
- Copïau o'r *Cardiau Senario* (Taflen weithgaredd 3) – un senario ar gyfer pob grŵp.
- Siswrn.
- Pensiliau lliw.

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Gweithgaredd 1 (30 mun)

Beth yw treth a beth y mae'n talu amdano?

Noder: Bydd arnoch angen bag mawr o gownteri ar gyfer y gweithgaredd hwn.

- Dywedwch wrth y dysgwyr y byddant yn cael ychydig o gownteri. Eglurwch y byddant yn gallu defnyddio'r cownteri hyn i “brynu” pethau iddynt eu hunain, neu at ddefnydd y dosbarth. Dosbarthwch y cownteri fel bod rhai o'r dysgwyr yn cael un cownter, rhai yn cael dau gownter, a rhai yn cael pum cownter.
- Arddangoswch neu dosbarthwch gopïau o *Beth y gallwn ei brynu?* (Taflen adnoddau 1). Mae'r daflen hon yn dangos faint fydd cost y gwahanol bethau y gall y dysgwyr eu prynu: pwll nofio (50 cownter), cyfarpar maes chwarae (30 cownter), gliniadur (20 cownter), beic (15 cownter), pêl-droed (5 cownter), recorder (5 cownter), llyfr darllen (2 gownter), pensil (1 cownter).
- Gofynnwch i'r dysgwyr pa eitemau y gallent fforddio eu prynu ar eu pen eu hunain. Bydd rhai o'r dysgwyr yn gallu fforddio prynu mwy o bethau nag eraill.
- Gofynnwch i'r dysgwyr ystyried pa eitemau na fyddai'n bosibl eu prynu ar eu pen eu hunain (pwll nofio, ffrâm ddringo, cyfrifiadur a beic). Trafodwch y modd y gallai'r dysgwyr fforddio prynu'r holl bethau hyn heb gael rhagor o gownteri. Cytunwch y gallai'r dysgwyr brynu'r eitemau drutach trwy ddefnyddio rhai, neu bob un, o'u cownteri gyda'i gilydd. Rhowch gyfle i'r dysgwyr ymuno â grwpiau eraill i brynu rhywbeth.
- Trafodwch y cwestiynau canlynol, gan annog y dysgwyr i roi rhesymau dros eu syniadau:
    - *A ydych yn meddwl ei bod yn deg bod gan rai pobl fwy o gownteri nag eraill? Sut y byddech yn dosbarthu'r cownteri yn decach?*
    - *Wrth rannu eich cownteri ag eraill mewn grŵp, a ydych yn credu y dylai pawb gyfrannu'r un nifer o gownteri? Er enghraifft, gallai'r rhai sydd â mwy o gownteri gyfrannu mwy na'r rhai sydd â llai o gownteri.*
- 'Nawr gofynnwch i'r dysgwyr feddwl am y pethau y mae arnom eu hangen yn ein cymunedau er mwyn i ni i gyd fyw bywydau iach, hapus a diogel.
    - *Meddwl:* Gofynnwch i'r dysgwyr feddwl ar eu pen eu hunain am funud.
    - *Gwaith Pâr:* Rhowch ddau funud i'r dysgwyr gymharu eu hatebion.
    - *Rhannu:* Treuliwch ychydig o funudau yn rhannu awgrymiadau'r dysgwyr fel grŵp cyfan.
- Efallai yr hoffech roi un neu ddau o enghreifftiau i'r dysgwyr er mwyn procio eu meddyliau. Ymhlith y posibiliadau y mae: ysgolion ac athrawon; ysbytai, meddygon a nyrsys; yr heddlu; diffoddwyr tân; y lluoedd arfog; ffyrdd a rheilffyrdd; gofalu am yr henoed; casglu gwastraff ac ailgylchu; amgueddfeydd a llyfrgelloedd; gwarchod cefn gwlad; adeiladu tai newydd a darparu cymorth i bobl sy'n methu gweithio.
- Trafodwch o le y mae'r dysgwyr yn meddwl y daw'r arian i dalu am bethau fel hyn yn eu cymuned. Tynnwch sylw at y ffaith bod y llywodraeth yn defnyddio'r arian y mae'n ei gasglu gan bobl a busnesau i dalu am y pethau hyn. Gelwir yr arian hyn yn dreth. Efallai yr hoffech egluro'r modd y mae'r dreth hon yn cael ei chasglu, er enghraifft ar ffurf cyfran o'r arian y mae pobl yn ei ennill neu yn rhan o'r elw y mae busnesau'n ei wneud. Mae treth hefyd wedi'i chynnwys ym mhris llawer o'r nwyddau yr ydym yn eu prynu (gelwir hyn yn dreth ar werth neu TAW yn fyr).
- Yn yr un modd ag yr oedd y dysgwyr wedi rhannu eu cownteri i “brynu” pethau, defnyddir ein trethi ar y cyd i ofalu am ein cymunedau. Mae talu treth yn bwysig gan ei fod yn talu am y pethau y mae arnom i gyd eu hangen i fyw bywydau hapus, iach a diogel.

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Gwahaniaethu

- *Gwneud pethau'n anos:*
    - *Gofynnwch i'r dysgwyr ymchwilio i ba gyfuniadau gwahanol o eitemau y gallent eu prynu wrth rannu eu cownteri fel dosbarth.*

Gweithgaredd 2 *(30 mun+)*

Ei rannu'n deg?

Noder:

- *Mae gwerth y tocynnau a'r dreth y gofynnir amdani isod at ddibenion y gêm yn unig, ac nid ydynt yn adlewyrchu incwm gwirioneddol na symiau trethi a delir gan unigolion a busnesau. Efallai yr hoffech rannu'r manylion hyn â'r dysgwyr.*
- *Cyn dechrau'r gweithgaredd, labelwch un tabl nas defnyddiwyd yn y dosbarth fel a ganlyn: "Hafan trethi (lle i guddio'ch arian rhag y llywodraeth)". Darperir label yn* Nhaflen adnoddau 2.

- Esboniwch fod y dysgwyr yn mynd i chwarae gêm i'w helpu i ddeall ychydig mwy am y modd y mae trethi'n cael eu casglu a'u gwario. Bydd hyn hefyd yn helpu'r dysgwyr i ystyried a yw pawb yn talu eu cyfran deg o dreth.
- Trefnwch y dysgwyr yn bum grŵp, yn ddelfrydol gyda phedwar i chwe unigolyn ym mhob grŵp. Dywedwch wrth y dysgwyr eu bod bellach yn cynrychioli cymuned newydd, gyda phob grŵp yn cynrychioli pobl wahanol yn y gymuned honno. Dywedwch wrth y dysgwyr y byddant yn cydweithio yn eu grwpiau i ennill cynifer o docynnau ag y gallant. Fodd bynnag, bydd angen iddynt ddefnyddio rhai o'u tocynnau i dalu treth, yn yr un modd ag y mae angen i bobl a busnesau dalu treth gan ddefnyddio peth o'u henillion neu elw.
- Dywedwch wrth y dysgwyr y bydd y dreth hon yn cael ei defnyddio i dalu am wasanaethau a chyfleusterau yn eu cymuned. Er mwyn cysylltu â'r gweithgaredd blaenorol, efallai yr hoffech ofyn i'r dysgwyr am syniadau ynghylch y pethau y gallai fod angen gwario'r arian treth hwn arnynt.
- Rhowch gopi o un o'r *Disgrifiadau o'r Grwpiau* (Taflen weithgaredd 1) i bob grŵp, a gofynnwch i'r dysgwyr ddarllen eu disgrifiad.
- Dosbarthwch gopïau o *Templedi Tocynnau* (Taflen weithgaredd 2), siswrn a phensiliau lliw. Dylai fod gan bob grŵp un ddalen o docynnau. Eglurwch fod angen i'r dysgwyr weithio gyda'i gilydd yn eu grwpiau i dorri'r tocynnau allan a'u lliwio'n ofalus. Mae'r rhif ar y tocyn yn cynrychioli ei werth. Efallai yr hoffech yn gyntaf ofyn i'r dysgwyr gyfrifo'r uchafswm mwyaf posibl o docynnau y gallent eu gwneud gan ddefnyddio eu taflen dempled.
- Rhowch ychydig o amser i'r dysgwyr ddechrau gwneud eu tocynnau. Ar ôl ychydig funudau, gofynnwch i'r dysgwyr roi'r gorau i wneud tocynnau ac egluro y bydd angen iddynt ddewis un person yn eu grŵp i fod yn gasglwr trethi. Dylai'r bobl sy'n cael eu dewis ddod i nôl y *Cerdyn Senario* cyntaf ar gyfer eu grŵp (Taflen weithgaredd 3). Bydd y cerdyn hwn yn disgrifio rhywbeth y mae angen casglu treth ar ei gyfer, a faint o dreth y mae angen i'r grŵp ei thalu. Mae angen i'r casglwr trethi gasglu'r nifer cywir o docynnau a'u rhoi i'r maer (sef chi – yr athro!).
- Dywedwch wrth y dysgwyr y gallant ddechrau gwneud tocynnau eto. Ailadroddwch yr uchod sawl gwaith, gan roi senario gwahanol i'r casglwyr trethi ar gyfer eu grŵp (a swm gwahanol o dreth i'w chasglu) bob tro. Dylai'r casglwr trethi hefyd gadw cofnod o gyfanswm y dreth y mae ei grŵp yn ei thalu.

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

- Ar ôl i'r holl senarios gael eu dosbarthu ac i'r trethi gael eu casglu, gofynnwch i'r dysgwyr gyfrifo cyfanswm gwerth y tocynnau sydd ganddynt yn weddill.
- 'Nawr, rhowch gyfle i un dysgwr o bob grŵp rannu'r wybodaeth ganlynol â gweddill y dosbarth: disgrifiad o'i grŵp, cyfanswm gwerth y tocynnau a wnaed, a faint o dreth a dalwyd ganddynt yn gyffredinol. Gofynnwch i grwpiau 4 a 5 egluro eu defnydd o'r hafan trethi, a gofynnwch i grŵp 5 egluro'r modd yr oedd wedi dylanwadu ar y llywodraeth er mwyn osgoi talu treth.
- Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol yn eu grwpiau:
  - *Sut yr oeddech yn teimlo yn ystod y gêm?*
  - *A ydych yn meddwl bod eich grŵp chi wedi talu cyfran deg o dreth? Pam yr ydych yn meddwl hyn?*
  - *A ydych yn meddwl bod y grwpiau eraill wedi talu cyfran deg o dreth? Pam yr ydych yn meddwl hyn?*
  - *A ydych yn meddwl y dylid gwneud y gêm yn decach? Os felly, sut y byddech yn ei gwneud yn decach?*
- Gofalwch fod yna amser ar ddiwedd y gweithgaredd i'r dysgwyr drafod eu meddyliau a'u syniadau fel dosbarth cyfan. Efallai yr hoffech dynnu sylw at y pwyntiau canlynol:
  - *Yn gyffredinol, ystyrir bod talu trethi yn beth da gan ei fod yn ffordd bwysig o godi arian ar gyfer gwasanaethau hanfodol megis ysgolion, ysbytai, ffyrdd a dŵr glân. Fodd bynnag, mae symiau'r trethi y mae pobl a busnesau yn eu talu yn aml yn destun dadl fawr.*
  - *Mae pobl yn talu symiau gwahanol o drethi yn dibynnu ar faint o gyflog y maent yn eu hennill. Mae rhywfaint o incwm yn ddi-dreth, ac yn ychwanegol at hyn mae yna gyfraddau gwahanol yn dibynnu ar ba fand treth y mae eich incwm yn perthyn iddo. Mae hyn yn golygu y dylai'r rhai sy'n ennill mwy (sydd mewn band treth uwch) dalu cyfran fwy o'u hincwm yn dreth na phobl sy'n ennill llai (sydd mewn band treth is).[1]Yn yr un modd, mae busnesau mwy sy'n gwneud mwy o elw fel arfer yn talu mwy o dreth na busnesau llai.*
  - *Fodd bynnag, mae rhai pobl gyfoethocach a busnesau mwy yn cuddio'u harian – yn aml mewn hafanau trethi – fel y gallant osgoi talu treth. Mae hafan trethi naill ai'n wlad neu'n lle y gall pobl neu gwmnïau gofrestru i dalu cyfraddau treth is nag yn eu gwledydd eu hunain. Gall busnesau mawr hefyd roi pwysau ar lywodraethau i ddarparu seibiannau treth, esemptiadau, a chyfraddau is er mwyn sicrhau eu bod yn talu cyn lleied o dreth â phosib. I gael rhagor o wybodaeth, g*weler yr Wybodaeth Gefndir sydd *ar wahân.*
  - *Yn nwy senario gyntaf y gêm, roedd y teuluoedd a oedd yn ennill incwm is a'r busnesau bach yn talu llai o dreth na'r teulu incwm uwch a'r busnes mawr. Mae'r rhan fwyaf o bobl yn cytuno bod hyn yn deg, gan fod y bobl yn y senario olaf yn ennill mwy o arian. Efallai yr hoffech drafod hyn ymhellach.*
  - *Yn y ddwy senario olaf, roedd y teulu a oedd yn ennill incwm uwch a'r busnes mawr yn gallu dewis talu llai o dreth nag y dylent trwy guddio rhai o'u tocynnau mewn hafan trethi, neu drwy ddefnyddio eu dylanwad i negodi seibiant treth â'r maer (sef y llywodraeth).*
  - *Efallai y bydd rhai pobl mewn grwpiau incwm eraill hefyd yn osgoi talu trethi trwy ddweud celwydd ynglŷn â faint o gyflog y maent yn ei ennill (neu faint o elw y mae eu busnesau yn ei wneud). Fodd bynnag, yn aml mae'n haws i'r bobl gyfoethocaf osgoi talu treth ar raddfa*

[1] *I gael rhagor o fanylion am Dreth Incwm a Lwfansau Personol, gweler* www.gov.uk/treth-incwm

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

enfawr. Mewn nifer o achosion, gallant wneud hyn yn gyfreithlon trwy ddarganfod bylchau yn y gyfraith genedlaethol neu ryngwladol gyfredol.

- *Pan nad yw pobl yn talu eu cyfran deg o dreth, y bobl dlotaf (y mae mwy ohonynt yn fenywod nag yn ddynion) sydd ar eu colled fwyaf gan mai nhw yw'r bobl sy'n dibynnu fwyaf ar y gwasanaethau cyhoeddus y mae trethi yn talu amdanynt. Mae casglu'r trethi y mae eu hangen i fuddsoddi yn y gwasanaethau hanfodol hyn, megis gofal iechyd ac addysg, yn arbennig o anodd yn rhan ddeheuol y byd.*
- *Mae sefydliadau tebyg i Oxfam yn ymgyrchu dros wneud y system dreth yn decach, ac yn rhoi pwysau ar gwmnïau a llywodraethau mawr i wneud hynny. I gael rhagor o wybodaeth, gweler yr Wybodaeth Gefndir sydd ar wahân.*

Gwahaniaethu

- *Gwneud pethau'n anos:*
  - *Gofynnwch i'r dysgwyr feddwl am eu syniadau eu hunain ar gyfer pa wasanaethau y dylid gwario'r trethi a gesglir arnynt. Gallai pob grŵp gymryd eu tro wrth feddwl am syniad.*
  - *Gallai'r dysgwyr gyfrifo pa ganran o gyfanswm gwerth eu tocynnau y talodd eu grŵp mewn treth, a hynny ar gyfer y senarios gwahanol ac yn gyffredinol. Gallai'r grwpiau gwahanol wedyn fynd ati i gymharu'r ffigurau hyn, yn ogystal â chymharu'r ffigurau â chyfraddau treth incwm go iawn.*

Syniadau pellach

- Gofynnwch i'r dysgwyr ystyried eu taith adref o'r ysgol (neu'r ardal lle maent yn byw).
  - *Pa wasanaethau a chyfleusterau gwahanol sydd ar gael?*
  - *Yn eich barn chi, pa rai o'r rhain y mae'r llywodraeth yn talu amdanynt gan ddefnyddio trethi?*
  - *Pa rai o'r gwasanaethau a'r cyfleusterau hyn yr ydych chi a'ch teulu yn eu defnyddio?*
  - *Yn eich barn chi, pa rai o'r gwasanaethau a'r cyfleusterau hyn yw'r pwysicaf? Pam yr ydych yn meddwl hyn?*

  Gallai'r dysgwyr hefyd dynnu lluniau (neu gasglu delweddau) o wasanaethau a chyfleusterau yn eu cymuned leol y telir amdanynt ag arian trethi.
- Gallai'r dysgwyr ddefnyddio “grid diemwnt naw” i raddio rhai o’r gwasanaethau a’r cyfleusterau y telir amdanynt gan ddefnyddio trethi. Gellir graddio'r diemwnt yn ôl trefn pa mor bwysig yw'r meysydd gwariant hyn yn eu barn nhw.
  - Rhowch naw maes gwariant i'r dysgwyr eu hystyried (neu gofynnwch iddynt feddwl am eu rhestr eu hunain) (gweler y rhestr yng *Ngweithgaredd 1* i gael syniadau). Trefnwch y dysgwyr yn grwpiau o dri neu bedwar a gofynnwch iddynt ysgrifennu pob gwasanaeth neu gyfleuster ar nodyn gludiog ar wahân.
  - Yn eu grwpiau, dylai'r dysgwyr wedyn eu rhestru ar ffurf diemwnt, a'u gosod yn ôl trefn pa mor bwysig y maent yn ystyried y maes gwariant. Dylai'r maes pwysicaf, yn eu barn nhw, (hynny yw, y maes y dylid gwario'r mwyaf o arian arno) gael ei roi ar frig y diemwnt, yna dylid dilyn hyn â rhes o'r ddau nesaf, yna rhes o dri, ac ati.
  - Rhowch amser ar ddiwedd y sesiwn i’r dysgwyr rannu eu rhestrau a’r rhesymau drostynt â’r grwpiau eraill.

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

  - I gael rhagor o wybodaeth, ewch i dudalen 19 o *Dinasyddiaeth Fyd-eang yn yr Ystafell Ddosbarth: Canllaw i athrawon*: www.oxfam.org.uk/cy-GB/education/resources/global-citizenship-in-the-classroom-a-guide-for-teachers

- Defnyddiwch fideo ac adnoddau *Junior Tax Facts* CThEMC ar gyfer plant 8 i 11 oed i ddarganfod mwy am beth yw trethi, a'r modd y mae'r arian yn cael ei wario: www.tes.com/teaching-resource/junior-tax-facts-teachers-pack-11410987

  Noder: Nid yw'r adnodd uchod yn eiddo i Oxfam, ac nid yw Oxfam yn gysylltiedig â'r sefydliad hwn at ddibenion yr adnodd. Nid yw unrhyw farn a fynegir yn yr adnodd uchod, neu gan y sefydliad hwn, o reidrwydd yn adlewyrchu barn Oxfam.

- Defnyddiwch y ffilm fer hon gan Oxfam (*How Kids Make Things Fair*) i ysgogi trafodaeth ynghylch ystyr anghydraddoldeb a'r modd y gellid rhannu adnoddau (bisgedi yn yr achos hwn!) yn decach. Gallech drefnu senario tebyg yn yr ystafell ddosbarth a gweld y modd y mae'r dysgwyr yn ymateb.
  www.youtube.com/watch?v=oRnSdwCnxZo&feature=youtu.be

- Y llynedd, gwelwyd y cynnydd mwyaf mewn biliwnyddion erioed, gyda biliwnydd newydd yn cael ei ychwanegu at y rhestr yn amlach na phob dau ddiwrnod. Gwelodd y biliwnyddion hyn, y mwyafrif helaeth ohonynt yn ddynion, eu cyfoeth yn cynyddu $762 biliwn mewn 12 mis. Gallai'r cynnydd enfawr hwn fod wedi dod â thlodi eithafol byd-eang i ben saith gwaith drosodd. Yn hytrach, y llynedd aeth 82% o'r cyfoeth a grëwyd ledled y byd i'r 1% cyfoethocaf, tra na welodd hanner tlotaf y byd unrhyw gynnydd yn eu cyfoeth o gwbl.[2] Mae'n anodd gwerthfawrogi'r gwahaniaethau enfawr mewn cyfoeth sy'n bodoli rhwng y cyfoethocaf a'r tlotaf. Cefnogwch y dysgwyr i ddefnyddio rhestr gyfoeth Forbes i ymchwilio yn fwy manwl i gyfoeth y bobl gyfoethocaf sydd ar y rhestr: www.forbes.com/billionaires/list.

- Defnyddiwch adnoddau mathemateg Oxfam i ymchwilio i'r anghydraddoldeb sy'n bodoli mewn gwledydd, a rhwng gwledydd. Gweler *Pawb yn Cyfri* (ar gyfer disgyblion 8 i 12 oed) a *Mwy neu Lai'n Gyfartal?* (ar gyfer disgyblion 11 i 16 oed)
  - www.oxfam.org.uk/education/resources/everyone-counts
  - www.oxfam.org.uk/education/resources/more-or-less-equal-maths

- Mae trethiant, yn enwedig faint o dreth y mae pobl a busnesau yn ei dalu, yn aml yn bwnc llosg. Gweler canllaw Oxfam *Addysgu Pynciau Llosg* i gael cymorth ynglŷn â'r modd i gynnal sgwrs ystyrlon am bynciau cymhleth a heriol yn yr ystafell ddosbarth:

  www.oxfam.org.uk/education/resources/teaching-controversial-issues

Telerau defnyddio

Hawlfraint © Oxfam GB
Gallwch ddefnyddio'r lluniau a'r wybodaeth gysylltiedig i ddibenion addysgol yn eich sefydliad addysgol. Bob tro y byddwch yn ei defnyddio, rhaid i chi gydnabod y ffotograffydd sy'n cael ei enwi ar gyfer y ddelwedd honno, ynghyd ag Oxfam. Ni chewch ddefnyddio'r delweddau na'r wybodaeth gysylltiedig i ddibenion masnachol, nac y tu allan i'ch sefydliad addysgol. Mae pob gwybodaeth sy'n gysylltiedig â'r delweddau hyn yn berthnasol i'r dyddiad a'r adeg y cafodd y gwaith prosiect hwnnw ei gyflawni.

[2] *Oxfam (2018) Reward Work, Not Wealth: To end the inequality crisis, we must build an economy for ordinary working people, not the rich and powerful.* *policy-practice.oxfam.org.uk/publications/reward-work-not-wealth-to-end-the-inequality-crisis-we-must-build-an-economy-fo-620396*

Beth y gallwn ei brynu?

Taflen Adnoddau 1



Pwll nofio – 50 o docynnau

Cydnabyddiaeth y llun: laobc
https://openclipart.org/detail/66985/swimming-pool



Cyfarpar maes chwarae – 30 o docynnau

Cydnabyddiaeth y llun: frankes
https://openclipart.org/detail/216038/swing-coloured

Gliniadur – 20 o docynnau

Cydnabyddiaeth y llun: lescinqailes
https://openclipart.org/detail/18072/bicycle

Beic – 15 o docynnau

Cydnabyddiaeth y llun: aoguerrero
https://openclipart.org/detail/243109/simple-laptop

Pêl-droed – 5 tocyn

Cydnabyddiaeth y llun: BriceBoyer
https://openclipart.org/detail/25667/football

Recorder – 5 tocyn

Cydnabyddiaeth y llun: zeimusu
https://openclipart.org/detail/3305/recorder

Llyfrau darllen – 2 docyn

Cydnabyddiaeth y llun: frankes
https://openclipart.org/detail/245570/bookes-coloured

Pensil – 1 tocyn

Cydnabyddiaeth y llun: blphoto
https://openclipart.org/detail/5098/pencil

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.
Cyfran Deg? – Cynllun Sesiwn

OXFAM

Taflen Adnoddau 2

Hafan Trethi

(Ble i guddio'ch arian rhag y llywodraeth)

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.
Cyfran Deg? – Cynllun Sesiwn

OXFAM

Disgrifiadau o'r Grwpiau **Taflen gweithgaredd 1**

Teulu incwm isel **Grŵp 1**

Rydych yn deulu sy'n ennill prin unrhyw docynnau, er eich bod yn gweithio'n galed iawn. Mae'n rhaid i chi roi rhai o'ch tocynnau yn dreth, sy'n golygu mai ychydig iawn o arian sydd gennych yn weddill. Rydych yn aml yn ei chael yn anodd prynu digon o fwyd a thalu'r biliau ar amser.

Teulu incwm canolig **Grŵp 2**

Rydych yn deulu sy'n ennill cryn dipyn o docynnau. Rydych yn defnyddio rhai o'ch tocynnau i dalu trethi, ond mae gennych ddigon o arian o hyd i dalu am y pethau y mae arnoch eu hangen. Rydych yn gallu gwneud pethau braf, megis mynd ar wyliau o leiaf unwaith y flwyddyn.

Busnes bach **Grŵp 3**

Rydych yn fusnes bach. Dim ond ychydig o bobl sy'n gweithio i chi. Mae eich busnes yn eithaf llwyddiannus ac rydych yn ennill cryn dipyn o docynnau, ond nid hanner cymaint â'r busnesau mawr. Mae angen i chi ddefnyddio rhai o'ch tocynnau i dalu trethi, ond mae eich busnes yn dal i wneud ychydig o elw.

Teulu incwm uchel **Grŵp 4**

Rydych yn deulu sy'n ennill nifer o docynnau. Mae eich mam yn brif weithredwr cadwyn archfarchnadoedd fawr, a'ch tad yn gadeirydd banc. Rydych yn byw mewn tŷ mawr, yn mynd ar eich gwyliau sawl gwaith bob blwyddyn, ac nid ydych fyth yn poeni nad oes gennych ddigon o arian. Mae gennych gymaint o docynnau fel y gallwch guddio rhai ohonynt er mwyn osgoi talu trethi.

Busnes mawr **Grŵp 5**

Rydych yn fusnes mawr. Rydych yn cyflogi nifer o bobl, ac mae eich cwmni'n prynu ac yn gwerthu pethau ledled y byd. Rydych yn ennill llawer o docynnau. Mae gennych gymaint o docynnau fel y gallwch guddio nifer ohonynt er mwyn osgoi talu trethi. Rydych hefyd yn rhoi pwysau ar y llywodraeth i newid y rheolau treth fel y gallwch dalu cyn lleied o dreth â phosibl.

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.
Cyfran Deg? – Cynllun Sesiwn

Templedi Tocynnau – Grŵp 1

Taflen weithgaredd 2a



Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Templedi Tocynnau – Grŵp 2

Taflen weithgaredd 2b



Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Templedi Tocynnau – Grŵp 3

Taflen weithgaredd 2c



Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Templedi Tocynnau – Grŵp 4

Taflen weithgaredd 2ch



Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Templedi Tocynnau – Grŵp 5

Taflen weithgaredd 2d



Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Taflen weithgaredd 3a

Cardiau senario – Grŵp 1

Mae maes chwarae newydd yn cael ei adeiladu yn y parc lleol. Mae angen i chi dalu un tocyn yn dreth.

Mae angen rhoi arwyneb newydd ar ffyrdd y dref. Mae angen i chi dalu un tocyn yn dreth.

Mae ar yr ysgol angen rhagor o lyfrau a chyfrifiaduron. Mae angen i chi dalu dau docyn yn dreth.

Mae angen i'r ysbyty gael rhywfaint o gyfarpar newydd, a chyflogi rhagor o nyrsys. Mae angen i chi dalu tri thocyn yn dreth.

Cardiau senario – Grŵp 2

Mae maes chwarae newydd yn cael ei adeiladu yn y parc lleol. Mae angen i chi dalu dau docyn yn dreth.

Mae angen rhoi arwyneb newydd ar ffyrdd y dref. Mae angen i chi dalu dau docyn yn dreth.

Mae ar yr ysgol angen rhagor o lyfrau a chyfrifiaduron. Mae angen i chi dalu tri thocyn yn dreth.

Mae angen i'r ysbyty gael rhywfaint o gyfarpar newydd, a chyflogi rhagor o nyrsys. Mae angen i chi dalu pedwar tocyn yn dreth.

Cardiau senario – Grŵp 3

Mae maes chwarae newydd yn cael ei adeiladu yn y parc lleol. Mae angen i chi dalu dau docyn yn dreth.

Mae angen rhoi arwyneb newydd ar ffyrdd y dref. Mae angen i chi dalu tri thocyn yn dreth.

Mae ar yr ysgol angen rhagor o lyfrau a chyfrifiaduron. Mae angen i chi dalu pedwar tocyn yn dreth.

Mae angen i'r ysbyty gael rhywfaint o gyfarpar newydd, a chyflogi rhagor o nyrsys. Mae angen i chi dalu pum tocyn yn dreth.

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Taflen weithgaredd 3b

Cardiau senario – Grŵp 4

Mae maes chwarae newydd yn cael ei adeiladu yn y parc lleol. Mae angen i chi dalu tri thocyn yn dreth.

Mae angen rhoi arwyneb newydd ar ffyrdd y dref. Mae angen i chi dalu pum tocyn yn dreth.

Mae ar yr ysgol angen rhagor o lyfrau a chyfrifiaduron. Gofynnir i chi dalu deg tocyn yn dreth. Fodd bynnag, gallwch benderfynu faint o docynnau yr hoffech eu talu. Os nad ydych am dalu rhan o'r dreth, neu'r cyfan, ewch â'r tocynnau sbâr i'r bwrdd “hafan trethi” i'w cuddio.

Mae angen i'r ysbyty gael rhywfaint o gyfarpar newydd, a chyflogi rhagor o nyrsys. Gofynnir i chi dalu 15 o docynnau'n dreth. Fodd bynnag, gallwch benderfynu faint o docynnau yr hoffech eu talu. Os nad ydych am dalu rhan o'r dreth, neu'r cyfan, ewch â'r tocynnau sbâr i'r bwrdd “hafan trethi” i'w cuddio.

Cardiau senario – Grŵp 5

Mae maes chwarae newydd yn cael ei adeiladu yn y parc lleol. Mae angen i chi dalu deg tocyn yn dreth.

Mae angen rhoi arwyneb newydd ar ffyrdd y dref. Mae angen i chi dalu 15 o docynnau'n dreth.

Mae ar yr ysgol angen rhagor o lyfrau a chyfrifiaduron. Gofynnir i chi dalu 15 o docynnau'n dreth. Fodd bynnag, gallwch benderfynu faint o docynnau yr hoffech eu talu. Os nad ydych am dalu rhan o'r dreth, neu'r cyfan, ewch â'r tocynnau sbâr i'r bwrdd “hafan trethi” i'w cuddio.

Mae angen i'r ysbyty gael rhywfaint o gyfarpar newydd, a chyflogi rhagor o nyrsys. Gofynnir i chi dalu 20 o docynnau'n dreth. Fodd bynnag, gallwch benderfynu faint o docynnau yr hoffech eu talu. Anfonwch un o'ch grŵp i siarad â'r “maer” i drafod seibiant treth. Gallech gynnig cefnogi ei blaid yn yr etholiad nesaf yn gyfnewid am osgoi talu cymaint o dreth.

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.